

CORFF LLYWODRAETHU YSGOL GYNRADD WIRFODDOL A REOLIR TALACHARN, Orchard Park, Talacharn, Sir Gaerfyrddin, SA33 4TE

CYNGOR SIR CAERFYRDDIN, Neuadd y Sir, Rhiw'r Castell, Caerfyrddin SA31 1JP

Hysbysir trwy hyn yn unol ag Adran 42 o Ddeddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013 (y Ddeddf) a'r Côt Trefniadaeth Ysgolion fod Corff Llywodraethu Ysgol Gynradd Wirfoddol a Reolir Talacharn (y Corff Llywodraethu) a Chyngor Sir Caerfyrddin (y Cyngor), ar ôl ymgynghori â'r cyfryw bersonau ag sy'n ofynnol, yn cynnig newid ystod oedran Ysgol Gynradd Wirfoddol a Reolir Talacharn, Orchard Park, Talacharn, Sir Gaerfyrddin, SA33 4TE o 4-11 i 3-11 a darparu 15 o leodedd meithrin. Cynhelir yr ysgol gan Gyngor Sir Caerfyrddin.

Cynhaliodd y Corff Llywodraethu a'r Cyngor gyfnod ymgynghori cyn penderfynu cyhoeddi'r cynnig hwn. Mae adroddiad ar yr ymgynghoriad sy'n cynnwys crynodeb o'r materion a godwyd gan ymgynghoreion, ymatebion y cynigwyr ac ymateb llawn Estyn ar gael ar wefan yr ysgol.

Y bwriad yw rhoi'r cynnig ar waith ar **12 Ionawr 2026**.

Mae gan y Cyngor bolisi Cludiant Ysgol ac mae'n darparu cludiant am ddim i ddisgyblion cymwys o oedran ysgol statudol. Ni fydd y cynnig hwn yn effeithio ar y ddarpariaeth hon.

Cyfnod Gwrthwynebu

Cyn pen 28 diwrnod ar ôl dyddiad cyhoeddi'r cynnig hwn, hynny yw erbyn **22 Rhagfyr 2025** gall unrhyw berson wrthwynebu'r cynnig hwn. Dylid cyflwyno gwrthwynebiadau drwy:

- Gwblhau'r arolwg ar-lein
- Anfon neges e-bost at RhMYYmgynghoriadau@sirgar.gov.uk
- Neu drwy anfon llythyr at y Cynghorydd Jane Tremlett, Cadeirydd y Llywodraethwyr, Ysgol Gynradd Wirfoddol a Reolir Talacharn, Orchard Park, Talacharn, SA33 4TE

Llofnodwyd: Y Cynghorydd Jane Tremlett
Y Cynghorydd Jane Tremlett,
Cadeirydd y Llywodraethwyr
Ar ran Corff Llywodraethu Ysgol Gynradd Wirfoddol a Reolir Talacharn
Dyddiedig: 24 Tachwedd 2025

NODYN ESBONIADOL

(Nid yw'r Nodyn Esboniadol hwn yn rhan o'r Hysbysiad – yn hytrach fe'i cynigir er mwyn cynyddu eglurder)

1. Bwriad y Corff Llywodraethu a'r Awdurdod yw newid ystod oedran Ysgol Gynradd Wirfoddol a Reolir Talacharn o 4-11 i 3-11.
2. Nid yw cael lle yn y dosbarth meithrin yn golygu bod gan blentyn hawl awtomatig am le llawn-amser yn yr ysgol a bydd rhaid cyflwyno cais newydd.
3. Mae gan ddisgyblion meithrin yr hawl i gael addysg ran-amser o ddechrau'r tymor yn dilyn eu pen-blwydd yn 3 oed. Y diffiniad o ran-amser yw 5 sesiwn yr wythnos yn y bore neu'r prynhawn. Bydd gan ddisgyblion meithrin yr hawl i fynychu'r ysgol yn llawn-amser ar ddechrau'r tymor ar ôl eu pen-blwydd yn 4 oed.
4. Bydd y newid arfaethedig yn digwydd ar **12 Ionawr 2026**.

GOVERNING BODY OF LAUGHARNE VC PRIMARY SCHOOL, Orchard Park, Laugharne, Carmarthenshire, SA33 4TE

CARMARTHENSHIRE COUNTY COUNCIL
County Hall, Castle Hill, Carmarthen, SA31 1JP.

Notice is hereby given in accordance with Section 42 of the School Standards and Organisation (Wales) Act 2013 (the Act) and the School Organisation Code that the Governing Body of Laugharne VC Primary School (the Governing Body) and Carmarthenshire County Council (the Council) having consulted such persons as required, propose to change the age range of Laugharne VC Primary School, Orchard Park, Laugharne, Carmarthenshire, SA33 4TE from 4-11 to 3-11 and provide 15 nursery places. The school is maintained by Carmarthenshire County Council.

The Governing Body and the Council undertook a period of consultation before deciding to publish this proposal. A consultation report containing a summary of the issues raised by consultees, the proposer's responses and Estyn's full response is available on the school's website.

It is proposed to implement the proposal on the **12th January 2026**.

The Council has a School Transport policy and provides free transport to eligible pupils of statutory school age. This provision will not be affected by this proposal.

Objection Period

Within a period of 28 days after the date of publication of this proposal, that is to say by the **22nd December 2025**, any person may object to this proposal. Objections should be submitted through:

- Completing the online survey
- By e-mail to MEPConsultations@carmarthenshire.gov.uk
- Or by sending a letter to Cllr Jane Tremlett, Chair of Governors, Laugharne - VC Primary School, Orchard Park, Laugharne, SA33 4TE

Signed: Cllr Jane Tremlett
Cllr Jane Tremlett, Chair of Governors
For the Governing Body of
Laugharne VC Primary School
Dated: 24th November 2025

EXPLANATORY NOTE

(This Explanatory Note does not form part of the Notice but is offered by way of clarification)

1. It is the Governing Body's and the Authority's intention to change the age range of Laugharne VC Primary School from 4-11 to 3-11.
2. Admission to the nursery does not automatically entitle a child to a full-time place in the school and a new application must be made.
3. Nursery pupils are entitled to part-time education from the beginning of the term following their third birthday. Part-time is defined as 5 morning or afternoon sessions per week. Nursery pupils will be entitled to attend on a full-time basis at the start of the term following their 4th birthday.
4. The proposed change will take place on the **12th January 2026**.

